Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

HEP C U Later

# Cael eich profi. Cael triniaeth. Gwella.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae hepatitis C yn cael ei ledaenu trwy gyswllt gwaed i waed â rhywun sydd â'r feirws.

Gallwch gael hepatitis C heb symptomau.

Gellir trin hepatitis C gyda chwrs syml o dabledi.

## Gallech fod mewn perygl o gael hepatitis C os ydych chi erioed wedi:

- Cael rhyw heb ddiogelwch gyda rhywun a allai fod wedi cael hepatitis C, yn enwedig os oedd cyfleoedd i ddod i gyswllt gwaed i waed.
- Cael triniaethau harddwch gan ddefnyddio nodwyddau nad oeddent o bosibl wedi'u sterileiddio, yn cynnwys colur lled-barhaol.
- Cael tyllu'r corff, tatŵ, eillio rasel hir neu driniaeth aciwbigo gan ddefnyddio offer nad oedd efallai wedi'i sterileiddio.
- Cael trallwysiad gwaed cyn 1996.
- Cael triniaeth ddeintyddol neu feddygol dramor mewn amodau aflan.
- Rhannu offer chwistrellu cyffuriau neu offer arall sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau (yn cynnwys chwistrelli, nodwyddau, llwyau, dŵr neu hidlwyr ar gyfer paratoi cyffuriau, pibellau crac, neu wellt/papurau arian ar gyfer snwffian).

## Cael eich profi heddiw.

- Mae'r prawf am ddim.
- Prawf gwaed pigo bys syml ydyw.

## Ond cofiwch...

- Nid oes imiwnedd. Os ydych chi wedi cwblhau'r driniaeth, gallwch gael eich heintio eto.
- Cofiwch gael eich profi'n rheolaidd.
- Nid oes brechlyn sy'n atal hepatitis C.

## Os oes angen triniaeth arnoch:

- Dim ond un dos o dabledi'r dydd yw'r driniaeth.
- Dim pigiadau.
- Ychydig iawn o sgil-effeithiau sydd gan y driniaeth ac mae'r gyfradd llwyddiant yn uchel iawn.
- Mae'r driniaeth yn para 8-12 wythnos yn y rhan fwyaf o achosion.

# Holwch am gael prawf heddiw